## DATGANIAD POLISI AR:

## Ddiogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n wynebu Risg yn Noddfa Llŷn

Mae Noddfa Llŷn (i) yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg ac (ii) yn croesawu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg mewn i fywyd yr eglwys. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau i ddiogelu pob plentyn, person ifanc dan 18 ac oedolion sy'n wynebu risg, ta beth yw eu rhywedd, cenedligrwydd neu abledd, fel sydd wedi eu nodi yn neddfau Senedd y DU a Llywodraeth Cymru. Fel aelodau'r eglwys hon, rydym yn ymrwymo i feithrin, amddiffyn a diogelu pob plentyn, person ifanc ac oedolyn sy'n wynebu risg sydd ynghlwm â'r eglwys, ac fe fyddwn yn gweddïo drostynt yn aml. At y diben hwn, rydym yn ymrwymo i'r polisïau canlynol ac i ddatblygiad parhaus gweithdrefnau sy'n sicrhau gweithrediad y polisïau hynny:

### Atal a reportio cam-drin

Mae'n ddyletswydd ar bob un o bartneriaid yr eglwys a phob aelod o deulu ehangach yr eglwys i atal cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'n ddyletswydd ar bawb i ymateb i bryderon ynglŷn â lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, ac i reportio unrhyw ddatgeliad, canfyddiad neu amheuaeth o gam-drin. Bydd yr eglwys yn cydweithio'n llawn gyda unrhyw ymholiad statudol i unrhyw amheuaeth o gam-drin sydd wedi cysylltu â'r eglwys.

### Recriwtio diogel, cefnogaeth a goruchwyliaeth gweithwyr

Bydd yr eglwys yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth ddethol ac apwyntio'r sawl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, boed hynny'n waith cyflogedig neu wirfoddol. Mae hynny'n cynnwys henuriaid a diaconiaid. Darperir hyfforddiant addas, cefnogaeth a goruchwyliaeth i bob gweithiwr er mwyn hyrwyddo diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Sefydlir rolau clir ar gyfer gweithwyr hefyd.

### Parchu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg

Mae gan yr eglwys ganllawiau arfer dda a chôd ymddygiad ar gyfer y sawl sydd wedi eu hapwyntio i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg fel bod pob plentyn, person ifanc ac oedolyn sy'n wynebu risg yn derbyn y parch sy'n ddyledus iddynt.

### Arferion gweithio diogel

Mae'r eglwys yn ymrwymo i ddarparu gofod diogel ar gyfer gweithgareddau gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, ac fe fydd yn sefydlu ffyrdd o weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg sy'n hyrwyddo eu diogelwch a'u lles nhw.

### Cymuned diogel

Mae'r eglwys yn ymrwymo i atal bwlio plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Bydd yr eglwys yn ceisio sicrhau y bydd ymddygiad unrhyw berson a allai fod yn risg i blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yng nghymuned yr eglwys yn cael ei reoli'n addas.

**Pobl Cyfrifol**

| |
|---|
| **Marian Trythall**<br><br>**Person Penodedig ar gyfer Diogelu (DPS) Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion sy'n wynebu risg**<br><br>Bydd Marian yn cynghori'r eglwys ar unrhyw faterion ynghylch diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg a chymryd y camau priodol pan fo datgeliad, canfyddiad neu amheuaeth o gam-drin.<br><br>Tel: **07549 533417** e-bost: **mariantrythall@yahoo.co.uk** |
| **Anest Glyn**<br><br>**Dirprwy Berson Penodedig ar gyfer Diogelu (DDPS) Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion sy'n wynebu risg**<br><br>Bydd Anest yn cynghori'r eglwys ar unrhyw faterion ynghylch diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg a chymryd y camau priodol pan fo datgeliad, canfyddiad neu amheuaeth o gam-drin.<br><br>Tel: **07502 324388** e-bost: **anestglyn@outlook.com** |
| **Steve Trythall**<br><br>**Ymddiriedolwr Diogelu**<br><br>Bydd Steve yn codi proffil diogelu o fewn yr eglwys a goruchwylio a monitro gweithrediad y polisi diogelu a'i gweithdrefnau ar ran ymddiriedolwyr yr eglwys.<br><br>Tel: **07884 112876** e-bost: **stevetrythall@icloud.com** |

**Polisi a gweithdrefnau**

- Arddangosir copi o'r datganiad polisi yn ystod holl weithgareddau'r eglwys mewn lleoliadau wedi eu rhentu.
- Rhoddir copi llawn o 'Ganllawiau Arfer Dda a Chôd Ymddygiad', neu 'Weithdrefnau diogelu ar gyfer gweithio gyda oedolion sy'n wynebu risg' i bob gweithiwr fel bo'n addas, a bydd disgwyl i weithwyr eu dilyn.
- Pan ofynnir, darperir copi llawn o'r polisi a 'Chanllawiau Arfer Dda a Chôd Ymddygiad' a 'Gweithdrefnau diogelu ar gyfer gweithio gyda oedolion sy'n wynebu risg' i unrhyw bartner i'r eglwys, rhieni neu ofalwyr unrhyw blentyn neu berson ifanc o'r eglwys neu unrhyw berson ynghlwm â'r eglwys.
- Adolygir y polisi a 'Chanllawiau Arfer Dda a Chôd Ymddygiad' a 'Gweithdrefnau diogelu ar gyfer gweithio gyda oedolion sy'n wynebu risg' yn flynyddol, a rhoddir adroddiad ynglŷn a'u gweithrediad i bartneriaid yr eglwys, ynghyd ag adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad diogelu blynyddol.

**Noddfa Llŷn, Ebrill 2025**